PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 369 | MAI 2014










# Bad Achub y Borth




Llun: Arvid Parry-Jones

Dydd Sadwrn 10 Mai cynhaliwyd gwasanaeth dan ofal y Parchedigion Stuart Bell a Cecilia Charles i enwi bad achub newydd y Borth – D-760. Fe'i noddwyd gan a'i henwi ar ôl y diweddar Geoff Scott, oedd yn byw yn Cheltenham. Bu farw ym Mai 2010 gan adael £80,000 yn ei ewyllys i'r elusen. Roedd hyn yn prynu'r cwch newydd ac yn talu am ei chynnal am ddeng mlynedd. Trosglwyddwyd y bad newydd gan Kathryn Smith – merch Geoff Scott. Mae y 'Geoff Scott' yn disodli 'May II' oedd yn naw mlwydd oed.



Tiny Tots Penrhyn-coch – gweler t.5



Cerddwyr 3 chopa - stori'n llawn - t3

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Mehefin
## Deunydd i law: Mehefin 6   Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 18

**MAI 22** Dydd Iau Etholiad Ewrop

**MAI 22** Nos Iau Cyfarfod Cyhoeddus Cymdeithas Trefeurig yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**MAI 22** Nos Iau Cwis CIC yn festri y Garn am 7.00

**MAI 23** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**MAI 24** Prynhawn Sadwrn Barbeciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor o 6.00-8.30 Croeso Cynnes i Bawb

**MAI 24** Nos Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Y Negesydd yn Theatr y Werin, Canolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAI 28** Nos Fercher Cyfarfod Blynyddol Neuadd Pen-llwyn am 8.00.

**MEHEFIN 2** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**MEHEFIN 2 – 3** Nos Llun – Mawrth Cwmni'r Fran Wen yn cyflwyno Gwyn (cyfieithiad Cymraeg o ddrama Andy Manley) yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 6.00 nos Lun a 10.30 a 1.30 dydd Mawrth

**MEHEFIN 2** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**MEHEFIN 5** Nos Iau Taith gerdded noddedig CIC yn cychwyn ger Neuadd y Penrhyn am 6.45

**MEHEFIN 7** Dydd Sadwrn A oes heddwch? Cynhadledd i drafod rhyfel a heddwch - Jill Evans, Aled Huw Thomas, Yr Athro Ken Booth, Guto Prys ap Gwynfor a Dewi Llwyd ym Morlan, Aberystwyth o 10.30 - 4.30 £5 yn cynnwys te a choffi - dewch a chinio..

**MEHEFIN 8** Dydd Sul Parti PATRASA yn y Parc Penrhyn-coch

**MEHEFIN 12** Nos Iau Cyfarfod blynyddol Neuadd Rhydypennau yn y neuadd am 7.30.

**MEHEFIN 14** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth

**MEHEFIN 18** Dydd Mercher Taith flynyddol Cymdeithas Gymraeg y Borth – enwau i Gwynfryn Evans (820778)

**MEHEFIN 19** Nos Iau Noson gelf a chrefft CIC yn festri y Garn am 7.00

**MEHEFIN 20** Nos Wener Barbeciw yn y Cartref am 6.30. Trefnir gan Ffrindiau Tregerddan

**MEHEFIN 21** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn dilyn Owain Glyndwr gyda'r Athro Gruffydd Aled Williams. Enwau i Ceris Gruffudd 828017 Rhoshelyg@btinternet.com

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

### Cyfrifiaduron ar gael

**Dydd Mawrth 2yp – 4yp** - Mae laptop, argraffydd a sganiwr ar gael yn swyddfa Aberystwyth Age Cymru Ceredigion. Bydd gwirfoddolwr ar gael i helpu os angen. Ffoniwch os gwelwch yn dda i fwcio.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ebrill:**

£25 (Rhif 117) E. Davies, Ty'ncwm, Capel Dewi
£15 (Rhif 214) Gordon Jones, Y Wern, Bow Street
£10 (Rhif 204) Iwan B. Roberts, 4 Garn Wen, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ebrill 16.
Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb. £5 y flwyddyn.



## 30 MLYNEDD YN ÔL

**Cwmni drama Merched y Wawr, Penrhyn-coch ar ôl dechrau llwyddiannus i'r tymor. O'r chwith tu ôl: Susan Hughes, Megan Morgan, Edwina Davies, Gwenan Davies. Llun: Hugh Jones (O'r Tincer Mai 1984)**

### Her 3 Chopa Canolbarth Cymru

Ddydd Sadwrn 28 Mehefin bydd criw o Bow Street, Llandre a Thal-y-bont yn cymryd rhan yn Her 3 Chopa Canolbarth Cymru. Bydd y tîm yn un o nifer o dimau a fydd yn ceisio cerdded i gopaon Pumlumon Fawr, Cadair Idris ac Aran Fawddwy o fewn diwrnod er budd Apêl Fflur. Nod y tîm – sef Nia Peris, Anwen Pierce, Anita Saycell, Martyn Saycell a Geraint Williams – yw casglu o leiaf £500 at yr apêl.

Cafodd Fflur Fychan, mam i dri o blant o Abercegir, ei tharo'n sydyn gan gyflwr niwrolegol anghyffredin o'r enw Transverse Myelitis a'i parlysodd o'i brest i lawr dros nos. Er bod rhai cleifion yn gwella o'r cyflwr hwn heb effeithiau tymor hir gall eraill ddioddef niwed neu wendid parhaol. Mae Fflur yn un o'r achosion eithafol ac er ei bod yn ddibynnol ar gadair olwyn mae hi am wneud pob peth sy'n bosib i wella o'r sefyllfa hon.

Nod Apêl Fflur yw codi arian ar gyfer triniaeth o weithgaredd gorfforol reolaidd arbenigol fydd yn sicrhau'r gwaith hanfodol o gynnal ei ffitrwydd, iechyd corfforol a meddyliol a'i gallu i fyw mor annibynnol â phosib.

Mae'n bosibl ichi weld stori Fflur mewn rhaglen arbennig yn y gyfres *O'r Galon* ar S4C ddechrau'r flwyddyn. Os hoffech gyfrannu at yr apêl drwy noddi'r tîm, cysylltwch ag Anwen (Pierce) neu Nia (Peris).

### Taith Gerdded 2014/15

Bydd cymal nesaf Taith Llwybr yr Arfordir Beryl Vaughan (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol 2015) yn cychwyn am 10 o'r gloch tu allan i Gwt y Bad Achub yn y Borth dydd Sul Mehefin 1af ac yn gorffen yn Llanrhystud.

Yna ar yr 2il o Lanrhystud i Geinewydd ac yna 3ydd o Geinewydd i Aber-porth.
Gall unrhywun ymuno, a medrwch gerdded faint a fynnoch, rhan neu i gyd unrhyw ddiwrnod. Gellir cyfrannu a chefnogi Beryl Vaughan drwy fynd i www.justgiving.com/taithgerddedberylvaughan, neu gallwch ffonio swyddfa'r Eisteddfod ar 0845 4090 400.

Annwyl Olygydd,

Cinio Dathlu Penweddig yn 40
Mae Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth, yn 40 eleni – ac rydym yn gwahodd cyn-athrawon a chyn-ddisgyblion i ymuno yn y dathlu ddydd Sadwrn 28 Mehefin 2014!

Cynhelir diwrnod agored anffurfiol yn yr ysgol yn ystod y prynhawn gyda lluniaeth ysgafn, ac yna cynhelir bwffe yng Ngwesty'r Belle Vue am 7pm. Gellir archebu tocyn ar gyfer y bwffe fel unigolyn neu fel grŵp - beth am drefnu aduniad o'ch blwyddyn o fewn y parti mawr? Bydd yn gyfle gwych i ymlacio ac i gael hwyl yng nghwmni ffrindiau ac i adnewyddu cyfeillgarwch. Mae sawl un eisoes wedi rhoi hen luniau ar fenthyg i'r ysgol ar gyfer arddangos yn ystod y diwrnod agored, a gallwch hefyd weld detholiad drwy ymweld â www.facebook.com/Penweddig40 Gallwch e-bostio unrhyw gyfraniadau at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk neu dewch â nhw gyda chi.

Felly ffoniwch yr ysgol ar (01970) 639499 i archebu tocyn/tocynnau'r bwffe, £15 y pen, ar unwaith – rhag i chi golli'ch cyfle!

Y cyntaf i'r felin gaiff falu!

Yn gywir,

Mark Watkins
Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu
Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig

# PENRHYN-COCH

**Horeb**
**Mai**
25 10.30 Oedfa yng nghwmni Cerys Humphreys

**Mehefin**
1 10.30yb : Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri 2.30 Oedfa gynun Gweinidog
8 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
15 10.30 Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe 2.30 Oedfa bregethu Mair Penri
22 Taith i Ddolwar Fach ac oedfa yn Nolanog – enwau i Ceris
29 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog



### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch


Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Mai a 11 a 25 Mehefin. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Ysbyty

Dymuniadau gorau i Dr Wadad Williams, Tebeldy, Cae Mawr, gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Treforus ddechrau'r mis.



Yr Esgob Wyn yn siarad gyda Jane Jenkins.



Glyn Collins yn siarad gyda'r ficer newydd.

### Diolch

Hoffai Owen Galbraith, Gwelfor, Pen-y-berth ddiolch i bawb gyfrannodd, gynorthwyodd ac a fynychodd brynhawn coffi a chacen yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch i godi arian i Cancer Research UK. Codwyd £635 hyd yn hyn a bydd TSB yn rhoi £500 ar ben hynny.

### Horeb

Mae Capel Horeb yn trydar – gellwch ddilyn ar @HorebPenrhyn

### Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau i Gronw Downes, Glanrafon, ar basio ei arholiad trombôn gradd 3 gydag anrhydedd yn ddiweddar.

### Croeso

Croeso i Benrhyn-coch i Pete Leggett sydd wedi symud i 2 Bronderw.

### Gwefan

Cafwyd 1005 o ymweliadau â gwefan Trefeurig, yn ystod mis Ebrill . Ceir yno ddetholiad o luniau o eisteddfodau Penrhyn-coch 1964-2007. Tybed a wyddoch chi pwy yw y bachgen sydd yn un o'r lluniau?

### Cyfarfod trwyddedu

Nos Iau 8 Mai cynhaliwyd cyfarfod trwyddedu'r Parchedig Andrew Loat yn offeiriad-yng-ngofal plwyfi Llanbadarn Fawr, Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor yn Eglwys Sant Padarn, Llanbadarn Fawr dan ofal yr Esgob Wyn. Rhif ffon newydd y ficerdy yn Llanbadarn yw 624638 a gellir cysylltu â'r ficer newydd ar vicarage.llanbadarn@gmail.com.

### Eglwys Sant Ioan

Cynhalwyd Gwasanaeth Conffirmio yn Eglwys St Ioan Penrhyn-coch ar 4 Mai pan gonffyrmiwyd 11 ymgeisydd gan Esgob Tyddewi , Y Gwir Barchedig Wynne Evans, Cafodd yr ymgeiswyr eu paratoi gan y Parchg Ronald Williams.

### Merched y Wawr

Nos Iau y 10fed o Ebrill croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Is-lywydd Wendy Reynolds yn absenoldeb ein Llywydd oherwydd bod Sue ddim yn hwylus iawn. Dymunwyd gwellhad buan iddi. Yna aed ymlaen i drafod y busnes arferol drwy fynd dros yr ohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis, a hefyd trafod pethau oedd i ddigwydd ym mis Mai, sef Gŵyl Fai Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion ar y 10fed o Fai yn Felin-fach. Bydd rhai o'n haelodau yn cystadlu yno; yna Ffair Genedlaethol ym Machynlleth ar y 17eg o Fai. Diolchwyd hefyd i'r merched oedd wedi cymryd rhan yn chwaraeon Merched y Wawr ac i'r rhai fu yn canu yng Nghôr yr Eisteddfod leol. Gwahoddwyd pawb i fynd i Neuadd yr Eglwys ar y 26ain o Ebrill i gefnogi Owen Galbraith oedd wedi trefnu te, coffi a stondin at godi arian at elusen cancr. Yna aeth ein Llywydd i groesawu ein gŵr gwadd, sef Dewi Evans, Bow Street, oedd wedi dod ar fyr rybudd oherwydd bod y person gwreiddiol oedd i fod gyda ni yn methu a dod. Roedd Dewi wedi dod i ddangos i ni sut

i chwarae chwist. Er bod rhai ohonom wedi bod yn chwarae blynyddoedd yn ôl bellach fe dreuliwyd noson llawn hwyl a sbri, pawb yn mwynhau pob munud. Y rhai a orfu ar y diwedd oedd Megan Davies a Mairwen Jones. Cafwyd cwpanaid i ddiweddu'r noson a thynnwyd y raffl fisol. Diolchwyd i Dewi am ei waith a'i amynedd.

### Gwellhad buan

Da yw deall fod Howell Evans, Y Ddôl Fach, yn gwella ar ôl damwain a thriniaeth yn yr ysbyty;

Hefyd, Mona Edwards sydd wedi cael triniaeth;

Connie Evans, Gwawrfryn, sydd ddim wedi bod yn hwylus iawn eto.

Gwellhad buan i bawb sydd wedi cael amser annifyr dros y gaeaf; mae'r haf ar droed gobeithio.

### Clwb Hanner Tymor

Cynhelir Clwb Hanner Tymor yn Festri Horeb ar ddydd Iau 29 Mai a dydd Gwener 30 Mai o 10.00yb tan 1.00yp i blant ysgol gynradd 5 mlwydd oed i fyny.


Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau hwylus fel gwaith crefft, gêmau, coginio, ffilm, helfa drysor, stori a chân o dan arweiniad y gweinidog a dau o aelodau'r eglwys, sef Wendy ac Eirian Reyonlds. Bydd Zoe Glynne Jones, Gweithiwr Plant ac Ieuenctid Eglwysi Gogledd Ceredigion hefyd yn arwain sesiynau. Darperir lluniaeth ysgafn yn ystod y bore. Mae'r Clwb ar agor i bawb ond byddwn yn cyfyngu nifer y plant i 30 bob dydd.

Pe baech yn hoffi sicrhau lle i'ch plentyn/plant, byddwch garediced â chysylltu â'r Parchg Judith Morris , Berwynfa, Penrhyn-coch (berwynfa@btinternet.com) cyn gynted ag y bo modd. Codir tâl o £2 y sesiwn a phris gostyngol o £1 i frawd a chwaer.

### Pen blwydd

Pen blwydd hapus i Elsie Morgan, Bwthyn, sydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar 23ain o Fai.
Dymuniadau gorau a phen blwydd hapus i Elsie
Wrth i ti ddathlu pen blwydd arbennig eleni.
Mae pawb yn gobeithio y cei hwyl a sbri.
A chacen fawr a chanhwyllau i'w chwythu.
Llongyfarchion, cardiau a rhoddion lu.
A phaid â gor-wneud ar ddiwrnod y dathlu!
**M.J.**

## CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION







Cafwyd Cymanfa lwyddiannus iawn eleni eto ar Sul 11eg o Fai yng Nghapel Bethel, Aberystwyth. Roedd gwasanaeth y bore dan ofal y Gweinidog y Parchg Judith Morris. Dechreuodd trwy ddarlleniad a gweddi. Yna roedd plant yr ysgolion Sul yn dod ymlaen i gyflwyno emyn o'r Rhaglen a'r plant i gyd yn eu canu, a rhai oedolion hefyd. Rhwng y cyflwyniadau rhoddodd Judith ddwy stori ardderchog i'r plant ac roeddynt yn ymateb yn wych iddi. Gwasanaeth gwych yn wir. Y Parchg Richard Lewis roddodd y fendith ar y diwedd.

Yn yr hwyr cafwyd Cymanfa'r oedolion. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parchg Wyn Morris. Cyflwynodd Y Parchg Judith Morris yr arweinydd, sef Mrs Margaret Daniel, Blaen-porth. Cafwyd anerchiad gan y Dr Jane Aaron. Roedd yn noson ardderchog iawn, y canu yn wych. Cafwyd y fendith ar y diwedd gan y Parchg Andrew Lenny.

Cynhelir Cymanfa 2015 ar 10 Mai yng Nghapel y Garn. Yr arweinydd gwadd fydd Rob Nicholls, Caerdydd.

Pen blwydd hapus i Aled Hughes, 110 Ger-y-llan, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 40 oed ar y 5ed o Fehefin.

### Sioe Penrhyn-coch

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol Sioe Penrhyn-coch ar y 25ain o Ebrill yn Nhy'nllidiart. Cafwyd noson hapus dros ben a phawb wedi mwynhau yn fawr. Diolchwyd i bawb am eu rhan o wneud Sioe 2013 yn un lwyddiannus fel arfer gan ein Llywydd Dei Rees Morgan. Ategwyd hyn gan Mairwen yn ei ffordd unigryw ei hunan. Diolchwyd i berchnogion y dafarn am eu croeso ac am y bwyd blasus a gawsom. Edrychir ymlaen at sioe lwyddiannus eto eleni ar Awst 16.

### Pennaeth Ysgol newydd

Gwelwyd Andreas Huws, Tyddyn Seilo gynt, ar y cyfryngau yn ddiweddar. Bu y Gweinidog Addysg, Huw Lewis, yn agor adeilad newydd Ysgol y Bont – ysgol i blant ag anghenion arbennig yn Llangefni lle mae Andreas yn bennaeth. Adeiladwyd yr ysgol ar safle yr hen ysgol ac ymhlith nifer o gyfleusterau ceir pwll therapi dŵr – yr unig un o'i fath ar Ynys Môn

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Priodas

Dymuniadau gorau i Rhian Ellis, Hywelfan, ac Anthony Barr ar eu priodas yn Eglwys Capel Bangor ym mis Ebrill. Pob hwyl i'r ddau yn eu cartref yng Nghefn Melindwr, Capel Bangor.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ceredig, Glenys a Rhys, Ty'nwern ar enedigaeth Steffan Jack, mab bach i Benjamin a Rachel.

# LLANDRE

## Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Yng nghyfarfod mis Ebrill o Ferched y Wawr Genau'r Glyn, croesawodd y llywydd Mrs. Jean Eklund o'r Waunfawr atom. Testun y noson oedd 'diddordebau', a chafodd y gangen wledd o weld y gwaith llaw cywrain a grëwyd gan Mrs. Eklund dros y blynyddoedd. 'Roedd yn wir yn fendigedig. Cyfeiriwyd at y ffaith fod un o selogion y gangen Mrs. Mary Thomas , Dolgelynen, wedi bod digon anffodus i gael codwm gan dorri ei dwy fraich yn ddiweddar; bydd y llywydd a'r ysgrifennydd yn ymweld â hi yn fuan. Hefyd 'roedd Llinos Evans, Dolwerdd wedi colli ei gŵr, Defi, yn ystod y mis diwethaf a bu'r llywydd a'r ysgrifennydd yn ymweld â hi i gydymdeimlo â'r teulu.

Cynhelir y cyfarfod Cenedlaethol ym Machynlleth ar Fai 17eg, a bydd y llywydd yn cynrychioli'r gangen yno.

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol ar nos Lun, Mai 19eg, gobeithio cawn syniadau at y flwyddyn nesaf.

## Treftadaeth Llandre

Mehefin 7 : Agoriad swyddogol o Lwybr Treftadaeth Llefydd Llonydd yn Eglwys Llandre. Bydd Edwina Hart AC yn lansio'r daith yn swyddogol.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Barry a Susan Jones, Hafod, Taigwynion ar ddathlu eu Priodas Arian yn ystod mis Ebrill.

Llongyfarchiadau i Katie Davidson, Glebe Cottag, Lôn Glanfred am gynllunio clawr rhaglen Eglwys Llandre Pam Pasg? Hefyd llongyfarchiadau i Katie ar basio arholiad cerddoriaeth Gradd 1 theori gydag anrhydedd. Da iawn ti Katie.

## Dal i wella

Da yw gweld fod Mary Thomas, Dolgelynen, adre o'r ysbyty ar ôl syrthio gan dorri ei dwy fraich.

## Rygbi

Llongyfarchiadau i Sion Summers, Bodwylan ar sgorio cais i dîm Rygbi Rhiwbeina yn final Plat SWALEC ar Fai 3 yn Stadiwm y Mileniwm.

## Pen blwydd hapus!

Dymuniadau gorau i Dylan Edwards, Bancyreithin, a ddathlodd ei ben blwydd yn 18 oed ar y 13eg o Fai. Pob hwyl i ti fel aelod o'r wasg yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes!



**Llun o ddosbarth Ysgol Sul Capel Bethlehem, Llandre, tua 1951. Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Betty Evans, Riwel; Eiddwen Stephens, Wileirog; Hywel James, Bryngwyn Canol; Dafydd Huws, Cedrwydd; Judith Williams, Glan-frêd; Hilda Daniel, Glyntuen; Gwenda Rowlands, Taigwynion. Rhes flaen (o'r chwith i'r dde): Joan Jones, Glannant; Margaret Evans, Riwel; Mr Parry Griffiths, Fron-haul; Glenys Davies, Gors Villa; ac Elena Stephens, Wileirog. Diolch i Ken Evans, Coedgruffydd, am gael benthyg y llun gwreiddiol, ac i Hilda Griffiths (Glyntuen gynt) am enwi aelodau'r dosbarth.**

## Llysgennad

Mae Efa Edwards, Bancyreithin, wedi cael ei dewis yn un o Lysgenhadon Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Fel rhan o'i dyletswyddau mae'n tywys ymwelwyr o gwmpas y campws ac ateb cwestiynau darpar-fyfyrwyr fel aelod o banel ar Ddiwrnodau Agored.

## Ffotograffydd ifanc

Llongyfarchiadau i Heddwyn Cunningham, Tyddyn Pen-y-gaer, ar ddod yn ail trwy Gymru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am brint du a gwyn i flynyddoedd 3 a 4 – tynnodd lun o'r goedwig ddaeth i'r golwg ar draeth y Borth.

## Llongyfarchiadau

Penblwydd hapus i Gwion James, Tremedd ar ddathlu ei ben blwydd yn un ar hugain oed ddechrau'r mis. Hefyd llongyfarchiadau i Gwion ar ei berfformiad yn The Outsiders lwyfanwyd fel rhan o'r Ŵyl Ddrama Agor Drysau.

## Banc Bro

**Enillwyr mis Mai**

£30 Rhodri Morgan, Maes Mieri
£20 Menna Edwards, Pen-y-groes
£10 Mathew Clubb, Ysgoldy

Cofiwch anfon eich newyddion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost :mairllo@hotmail.co.uk.

## Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Meinir WIlliams, Berwyn, ar ennill ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg i fynd i Fangor ym mis Medi i astudio Cymraeg a Ffrangeg.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

# Twrnament Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch

Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul 12fed a 13eg o Ebrill cynhaliwyd ail dwrnament pêl-droed ieuenctid Penrhyn-coch ar gyfer plant o 5 i 16 oed.

Daeth dros 50 o dimoedd i Gae Baker ar ddau ddiwrnod sych gan fwynhau chwarae da a chyfeillgar.

**Dyma'r canlyniadau llawn:**

Cwpan dan 9 oed: Ystwyth Gators A yn ennill Machynlleth

Plat dan 9 oed: Penrhyn Red Dragons yn ennill Penparcau

Cwpan dan 11 oed: Bow Street yn ennill Tregaron

Plat dan 11 oed: Talybont Tigers (merched) yn ennill Penparcau

Cwpan dan 12 oed: Penrhyn yn ennill Tal-y-bont

Plat dan 12 oed: Celts yn ennill Machynlleth

Cwpan dan 14 oed: Celtiaid yn ennill Hurricanes Mach

Cwpan dan 16 oed: Bow Street yn ennill Penrhyn-coch

Merch orau y twrnament - Cwpan Gwenno Tudor yn rhoddedig gan Hugh ac Ann Tudor - enillydd Lisa Cowdy, Tal-y-bont Tigers (merched dan 11 oed)

Chwaraewr gorau y twrnamnet, rhoddedig gan Catrin Galbraith a Sioned Martin - enillydd Daniel Hopton, Bow Street dan 16.

Yn ogystal â'r cystadlaethau roedd plant dan 7 oed yn chwarae eu gêm gyffrous eu hunain mewn peniau ar gaeau'r ysgol gynradd ddydd Sadwrn. Daeth nifer o dîmoedd gan gynnwys tîm bach o Benrhyn-coch. Mwynhawyd yr hwyl yn fawr yma gan y plant bach a'r rhieni.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y deuddydd ac am yr help i baratoi ac yn ystod y penwythnos Edrychwn ymlaen yn eiddgar ar gyfer twrnament 2015.



Bow Street dan 16



Merched Tal-y-bont – enillwyr y plat dan 11



Penrhyn-coch dan 12



Trefnwyd *Cracer o Noson* llwyddiannus iawn gan y Banc Bro ym Methlehem Llandre i ddathlu'r Nadolig a chafwyd y gefnogaeth arferol gan drigolion y pentref. Roedd y noson wedi ei threfnu er budd cronfa Ambiwlans Awyr Cymru ac yn y llun mae'r Trysorydd Dai England yn cyflwyno siec am £400, i Iestyn Hughes, Bow Street, cynrychiolydd yr Ambiwlans Awyr yn yr ardal. Hefyd yn y llun y mae Wynne Melville Jones, Gwenda James a Menna Edwards o'r Banc Bro. Diolch i bawb ohonoch wnaeth gefnogi'r noson.

**Erwyd Howells**

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH
GARDDIO
MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

# Cyngor Cymuned Melindwr

Ar nos Iau 17 Ebrill 2014, gyda'r Cynghorydd Richard Edwards yn y gadair a saith o gynghorwyr a'r Cynghorydd Sirol Rhodri Davies yn bresennol fe drafodwyd y canlynol:

Mae'r caban bws wedi ei ail osod yn mhentref Capel Bangor bellach.

O fewn y mis nesaf, bydd yr hysbysfyrddau newydd wedi eu gosod gan Owen Hopkins, Pengwernydd. Byddant yn cael eu gosod fel a ganlyn:tu allan i Neuadd Pen-llwyn, ar bwys caban bws ar stad Pen-llwyn, ar bwys blwch ffôn yn Pisgah, Cwmrheidol, Goginan – ar bwys y caban bws gyferbyn â'r garej.

Rydym fel Cyngor yn ymwybodol bod na nifer o dyllau yn y ffyrdd ar draws yr gymuned ac yn pwyso ar yr Cyngor Sir i gwblhau'r gwaith cyn gynted a bo modd.

Penderfynodd y Cynghorwyr yn unfrydol eleni, i beidio a chyfrannu tuag at achosion/elusennau lleol oherwydd gwariant sylweddol rydym wedi ei wneud i brynu adnoddau i'r gymuned.

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw broblem, yna cysylltwch gyda'ch cynghorydd lleol.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol nos Iau 15 Fai 2014 yn Neuadd Pen-llwyn am 7.30 o'r gloch.

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

y tincer
ytincer@googlemail.com



# Stori o Awstralia

Beth amser yn ol, derbyniodd Alun a Louisa Phillips, Maesceiro, gopi o bapur yr *Eyre Tribune* o Dde Awstralia ac ynddo erthygl ddiddorol iawn yn sôn am Aled eu hŵyr yn mynychu ysgol Canolfan Plant Cleve a'r Ardal. Gyda Aled yn Gymro, ac y mae yno hefyd fachgen o Indonesia, Sanwel Dingwall, mae'r ysgol wedi cael cefnogaeth gan Ganolfan Diwylliant Adelaide i gyflwyno a phwysleisio'r ieithoedd hynny. IE yn Ne Awstralia! Dywedodd Bronwyn Smith, y Cyfarwyddwr, fod y plant lleol yn cael eu dysgu am gefndiroedd eraill, a diwylliant, ac yn medru dysgu sawl iaith cyn eu bod yn bump oed. Maent wedi dysgu rhifau yn iaith Indonesia ac enwau anifeiliaid yn y Gymraeg. Dywedodd Megan Phillips, mam Aled, mai dim ond Cymraeg mae Rhydian yn siarad gydag Aled a Bryn a'i fod yn darllen storïau o lyfrau Cymraeg iddynt hefyd gan ei fod mor ymwybodol mai Cymraeg yw iaith gyntaf ei deulu. Hefyd dywedodd Megan yn y papur y byddai ei 'fam-gu' yn hapus iawn fel cyn athrawes ei fod yn cael dysgu Cymraeg yn Awstralia!

Mae Louisa nawr wedi anfon pentwr o ddeunydd Cymreig i'r ysgol yn Awstralia, gan gynnwys lluniau o blant yn eu gwisgoedd Gŵyl Ddewi a llyfrau dwyieithog. Mae'r teulu yn Bow Street wedi gwirioni fod hyn yn digwydd ac yn hynod ddiolchgar am weledigaeth y Ganolfan Ddiwylliant yn Adelaide.

# Colofn Enwau Lleol – Llygad


Yn ogystal ag ystyr gyffredin y gair, gall *llygad* hefyd olygu 'tarddell neu ffynhonnell'. Dyna'r ystyr a welir yn yr ymadrodd 'mynd i lygad y ffynnon' am fynd at darddiad neu wraidd rhywbeth. Ond mae'r elfen yn digwydd mewn enwau lleoedd yn ogystal. Ceir dwy enghraifft ym mhlwyf Trefeurig, ar fynydd-dir Pumlumon, sef Llyn Llygad Rheidol a Llyn Llygad Bychan. Fel y mae'r enw'n awgrymu, Llyn Llygad Rheidol yw tarddle afon Rheidol, a thebyg i Lyn Llygad Bychan gerllaw gael ei enwi mewn cyferbyniad ag ef.

Digwydd enwau tebyg mewn lleoedd eraill yng Nghymru megis Llygad Llwchwr, tarddle afon Llwchwr, ar gwr gorllewinol y Mynydd Du yn sir Gaerfyrddin; Llygad Cleddau, enw ar ran o flaen Cleddau Wen, cangen orllewinol Afon Cleddau, i'r gorllewin o Drecŵn, sir Benfro; Llygad Hepste Fechan, ffynnon sy'n darddle i Nant Hepste Fechan, llednant i Afon Hepste, i'r dwyrain o Ystradfellte, Brycheiniog; a Llygad Clydach, ym mlaen Nant Clydach, i'r de o Aberdâr ym Morgannwg.

Fe sylwch mai enghreifftiau yn perthyn i'r De yw'r rhain i gyd, ac mewn gwirionedd, mae'n ymddangos nad yw'r elfen *llygad* yn golygu 'tarddiad' yn digwydd ymhellach i'r gogledd na Llyn Llygad Rheidol. Ategir hynny gan R. J. Thomas yn ei gyfrol *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (t. 14).

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org



© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2014). All rights reserved. (1890s).

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Wrth i mi ysgrifennu'r golofn hon, mae'r gwanwyn wedi'n cyrraedd go iawn. Mae'r haul yn tywynnu a dipyn o ymwelwyr i'w gweld ar hyd Ceredigion. Gwych yw gweld y sir wedi ymdopi mor dda yn dilyn y stormydd gaeafol. Mae yna dipyn yn mynd ymlaen nawr i hybu diwydiant ymwelwyr Ceredigion. Mae hysbysebion ar y teledu, ac wrth gwrs daw'r Gwyll i gynulleidfaoedd BBC4 cyn hir, gydag ail gyfres i ddod. Gwn hefyd fod nifer o fusnesau lleol yn gwneud llawer i hybu'r ardal. Mae cysylltiad band llydan yn broblem i rai, ond rwy'n parhau i bwyso ar BT a Llywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa. Mae gwifrau ffibr 'superfast' nawr yn cael eu gosod yn Aberystwyth, a gobeithio gwellwn welliannau sylweddol i'r sir gyfan dros y flwyddyn nesaf.

Dros y misoedd nesaf, bydd rhywfaint o newid byd ym Mwrdd Hywel Dda. Mae hi bellach wedi ei gadarnhau y bydd cadeirydd a phrif weithredwr ein bwrdd iechyd lleol yn gadael eu swyddi. Gobeithiaf yn fawr y bydd hyn, yn ogystal â'r adolygiad o wasanaethau iechyd yn y canolbarth sydd ar droed, yn cynnig cyfle i edrych o'r newydd ar bolisiau iechyd yn ein hardal. Bu'r cyfnod diweddaraf yn un pryderus, wrth i welyau gau yn Ysbyty Aberteifi, a bygythiadau i driniaeth y galon ym Mron-glais. Mae'n bwysig fod penaethiaid Bwrdd Hywel Dda yn deall y canlyniadau o or-ganoli gwasanaethau yn ein hardal ni. Byddai'n golygu gorfod teithio'n bellach, a rhoi gormod o bwysau ar Glangwili. Byddaf yn parhau i ymgychu ar hyn fel y flaenoriaeth uchaf dros y misoedd nesaf, ac rwy' wedi cyhoeddi nifer o syniadau polisi at y dyfodol ar faterion fel y defnydd o dechnoleg fodern i hwyluso'r Gwasanaeth Iechyd, hybu cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, a recriwtio mwy o staff.

Ymhlith y materion eraill sydd wedi bod yn cael sylw dros y mis diwethaf mae diogelwch ffyrdd. Bum yn cwrdd â grwpiau lleol mewn nifer o leoliadau – o Eglwys-fach yn y gogledd i'r ffin gyda Sir Benfro yn y de – lle mae angen gwella. Da oedd clywed am fuddsoddiad mewn gwella diogelwch i blant sy'n cerdded i'r ysgol mewn ambell ardal fel Comins-coch. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych eto ar ddiogelwch ysgolion sydd ar briffyrdd, felly rwyf wedi bod yn dwyn eu sylw at achosion fel Llanarth a Phenparcau, i weld beth fedrir ei wneud i wella'r sefyllfa.



y tincer

ytincer@googlemail.com


# Taith gerdded y mis

## Llyn Blaenmelindwr i Nant Yr Arian

**Man Dechrau**: Wrth ochr llyn Blaenmelindwr.
**Map**: OS Explorer 213. GR 716834.
**Pellter**: Pedair milltir hawdd.




Cerdded ar hyd y ffordd am tua chwarter milltir a throi i'r dde ar hyd ffordd coedwigaeth. Cadw i'r dde ar y groesffordd ac ar ôl ychydig fe welwch lwybr i'r chwith. Dilynwch hwn (rhan o'r hen benfarch neu rewyn) nes cyrraedd Nant yr Arian. Cyfle am gwpaned yn y ganofan. Ar ôl dod lan y grisiau a'r maes parcio mae llwybr yn eich arwain i fyny – dilynwch hwn ac fe ddewch yn ôl i'r groesffordd ac i'r man dechrau.


UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

CYNORTHWYYDD SWYDDFA

Dyma swydd rhan-amser, tri hanner diwrnod yr wythnos, wedi ei lleoli ym Mhrif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth.

Bydd y sawl a benodir yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau swyddfa cyffredinol. Cyflog £12,746 - £13,564 (pro-rata).

Ceir ffurflen gais a manylion pellach o Swyddfa UCAC. Cysyllter ag Elaine Edwards, os dymunwch sgwrs anffurfiol.

Bydd angen dychwelyd y ffurflen gais at **E. Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2EU** erbyn **CANOL DYDD, DYDD LLUN 23 MEHEFIN**

**01970 639950 | ucac@athrawon.com**
**www.athrawon.com**

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

**Mai**
25 Goronwy Prys Owen

**Mehefin**
1 Noddfa Beti Griffiths
8 Richard Llwyd Jones
15 Bugail
22 Edwyn Hughes
29 Cymanfa Dydd yr Arglwydd
(Ysgolion Sul Morlan 10.00; Garn 2.00)

**Noddfa**
**Mai**
25 10.00 Trefn Lleol

**Suliau Noddfa Mehefin**
1 Oedfa am 10.00 Gweinidog.
8 Oedfa am 5.00 Parch. Ddr. Terry Edwards
15 Oedfa am 2.00 Gweinidog
22 Oedfa am 10.00 Trefn lleol
29 Uno yn y Garn ar gyfer Oedfa Dydd yr Arglwydd

### Neuadd Rhydypennau

Cynhelir cyfarfod blynyddol y neuadd ar nos Iau, Mehefin 12fed am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

### Enillydd


Llongyfarchiadau i Huw Jones, Llety Cynnes, ar ei lwyddiant yn Sioe Nefyn.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Polu a Gwenno Uhi ar enedigaeth merch fach, Eseta Gwenllian Tapa'atoutai-Uhi, ar 9 Mai. Mae Eseta yn wyres i Menna ac Elgan Davies, Maes Afallen. Dymuniadau gorau i'r teulu oll.

### Capel y Garn

Braf yw croesawu ein Gweinidog yn ôl o'i daith i'r India. Y ei absenoldeb cynhaliwyd gwasanaeth gan aelodau'r ofalaeth fore Sul y Pasg, pryd y cymerwyd rhan gan Lois Hughes Jones, Heulwen Lewis, Carwen Hughes Jones, Cêt Morgan, Vernon Jones, Eddie Jenkins, Llinos Dafis, John Leeding, ac Elen Roberts. Kathleen Lewis oedd wrth yr organ. Canolbwynt y gwasanaeth oedd dangosiad cyntaf y ffilm ardderchog Stori'r Pasg, gwaith plant Ysgol Sul Unedig y Garn a Noddfa, dan arweiniad Rhodri Llwyd Morgan. Iestyn a Marian Hughes fu'n ddyfal yn sicrhau bod y teclynnau electronig yn ufuddhau i bob gorchymyn!!




Yng nghyfarfod nos Fawrth Mai'r 13eg o Gymdeithasfa'r De, yng Nghapel y Crwys, Caerdydd, cyflwynodd y Parchedig Wyn Morris ei araith ymadawol ar ddiwedd ei gyfnod o flwyddyn yn Llywydd y Gymdeithasfa. Ein llongyfarchiadau cynhesaf a'n dymuniadau gorau iddo.

Yn yr un cynulliad o'r Sasiwn derbyniodd y Parchedig Elwyn Pryse gydnabyddiaeth am 60 mlynedd o wasanaeth yn y Weinidogaeth. Ein diolch iddo am ei hir ymroddiad a'i barodrwydd i wasanaethu o hyd, a phob dymuniad da iddo yntau.

### Penodi'n bennaeth

Llongyfarchiadau i Claire Tynan (nee Barnes) ar gael ei phenodi yn bennaeth Ysgol Gynradd Tonyrefail, Rhondda Cynon Taf.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Alan a Linda Gay, 5 Maes-y-garn, ar enedigaeth ŵyr bach, Owen Mahoney Henry Gay, mab i Philip a Robyn Gay sydd yn byw yn Braintree, ger Boston, UDA, a nai bach i Robert.

### Priodas

Llongyfarchiadau i Richard Lucas, Gwenallt, ar ei briodas â Emma Dixon, Dydd Sadwrn y Pasg yn Lamphey Hall, Penfro.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Ogwen Cameron, 30 Bryncastell – Llŷr ei mab, Alice ei merch yng nghyfraith a'i hwyrion, Rhys a Phoebe a ddaethant draw o Awstralia. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwaer yng nghyfraith a'i gŵr – sef Mr a Mrs Iwan Davies, Cnwc y Deintur.

Awstralia yw cartref Llyr a'r teulu bellach ac er y pellter yr oedd y cysylltiad yn un agos ac yr oedd yn hyfryd bod Llyr wedi dod adref cyn i'w fam ein gadael.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Gwynfor Davies, Manteg. Cydymdeimlwn â'i wraig Mrs Valerie Davies, Nicola a Steve, merch a mab yng nghyfraith, ac Ella Haf ei wyres. Roedd Gwynfor yn saer a chrefftwr arbennig a bydd colled fawr ar ei ôl.

Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel, Mrs Sheila Davies, Carreg Wen a Mr Tudor Gethin, Ty'n Rhos Fach ar golli cefnder, sef Mr Gwynfor Davies, Manteg.

### Diolch

Dymuna Iwan a Jean ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur ym mis Mawrth. Trwy garedigrwydd teulu a ffrindiau anfonwyd £560 i Ymchwil Cancr Cymru.

### Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Louisa Phillips a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn, sef yn 70 oed, ar y 25in o Fai.

### 60 Mlynedd

Llongyfarchiadau mawr i'r Parch Elwyn Pryse ar ddathlu treulio 60 mlynedd yn y Weinidogaeth yn ddiweddar. Er wedi ymddeol ers nifer o flynyddoedd bellach y mae'n dal i bregethu ar y Sul yn gyson reolaidd. Hei lwc am swm reit dda o flynyddoedd eto!

### Noson Goffi Noddfa

Cynhelir Noson Goffi flynyddol Capel Noddfa Nos Wener 4 Gorffennaf yn Festri'r Capel am 7.00 o'r gloch.

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Haf ap Robert, Bryn Castell, ar gael ei phenodi yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Pob dymuniad da iddi yn y swydd newydd!



**Christopher Gillison, Ysgol Penweddig – cyn ddisgybl yn Ysgol Rhydypennau gafodd 1af yn yr Eisteddfod Gylch ac 2il yn y Rhanbarth ar yr Unawd Chwythbrennau Bl. 10 a dan 19 oed.**


Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
DÊL CINIO
2 GWRS - £9.95
3 CHWRS - £13.95
BETH AMDANI . . .
MERCHER - SADWRN
12 TAN 3 Y PNAWN
01970 832 555
croeso@gwestyllewdu.com
* yn amodol ar argaeledd


Cofiwch gysylltu â ni
ytincer@googlemail.com

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Mae'r Brawd Mawr wedi cyrraedd Bow Street (os nad oedd yno eisoes). Adroddwyd yng nghyfarfod Ebrill o Gyngor Tirymynach, o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James, bod camera wedi ei osod ar bostyn trydan ger Huws Grey sydd yn croniclo symudiadau y drafnidiaeth er gwybodaeth i asiantaeth y priffyrdd a'r llywodraeth yng Nghaerdydd. Hefyd darparu deunydd i'r Heddlu fedru nodi cerbydau sydd heb eu trethi, yswiriant ac MOT, a cherbydau wedi eu dwyn. Ond nid yw yn recordio cerbydau sydd yn goryrru.

Adroddodd y Clerc fod y wefan newydd mewn grym ond nid yw'n medru printio deunydd allan ar hyn o bryd. Bu i'r gwynt yn ddiweddar ddifrodi ffens Cae Chwarae Bryncastell, ond erbyn hyn y mae wedi ei hatgyweirio. Adroddwyd hefyd am gyfarpar chwarae i'r un cae. Gellid pwrcasu ffram ddringo a llithren ynghyd â matiau diogelwch a'u gosod am bris o gwmpas £9,000. Neu gyfarpar a fyddai yn fwy pwrpasol i blant llai am tua £10,000. Penderfynwyd gofyn barn aelodau o gymdeithas trethdalwyr Bryncastell, ac ar yr un pryd edrych ar y posibilrwydd am grantiau.

Mae'n debyg fod Ysgol Rhydypennau am symud ymlaen i osod rampiau ar gyfer disgyblion ag anawsterau symud. Mae'r Cyngor wedi clustnodi swm o gwmpas £400, i'w dalu pan fo sicrwydd fod y gwaith yn cael ei gyflawni. Y Clerc i drafod gyda'r Prifathro.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Paul Hinge yn ei absenoldeb. Mae pont Llangorwen wedi ei ddifrodi gan gerbyd yn taro a dianc, sy'n golygu bod y ffordd ar gau tra bod atgyweiriadau yn cael eu gwneud a hynny dros gyfnod o dri mis. Mae'r bont wrth geg yr afon yng Nghlarach hefyd yn cael ei hatgyweirio, hynny'n golygu fod llwybr yr arfordir ar gau. Cynhelir cyfarfod o PACT ar 14 Mai am 7 yr hwyr yn Neuadd Rhydypennau. Gobeithir y bydd i'r Heddlu hysbysebu hwn hefyd. Cwynir fod plant o dan oed yn yfed alcohol yng nghae chwarae Tregerddan, ac mae'r awdurdodau priodol wedi eu hysbysu.

Adroddwyd bod blwch o eiddo BT mewn cyflwr peryglus ger mynedfa Maes Afallen. Bydd yr Asiantaeth yn cael gwybod amdano ar fyrder.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Mai. Y cyfarfod cyntaf fydd yr un blynyddol, agored i drethdalwyr y gymuned. Y cyfarfod i ddechrau am 7, a'r cyfarfod arferol i ddilyn.


Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

y tincer

# Y BORTH

### Llwyddiant Rhyngwladol

Llongyfarchiadau mawr i Mared Emyr, Y Borth, ar ei llwyddiant diweddar yn 3edd Gŵyl Delynau Ryngwladol Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon o'r 20oed i'r 26ain Ebrill. Daeth Mared i'r brig gyda dwy delynores arall wnaeth ennill ysgoloriaethau o £1,500 yr un yn yr Adran Ieuenctid ar gyfer cerddorion 19 mlwydd oed ac iau.

Yn y rownd gyntaf cyflwynodd 17 o gystadleuwyr o 8 gwlad raglen o 15 munud o gerddoriaeth, i gynnwys un gwaith gan gyfansoddwr o Gymru, i'r panel o feirniad nodedig: Jeremy Huw Williams, y bariton adnabyddus o Gymru; Imogen Barford, Pennaeth y Delyn yn ysgol gerdd a drama y Guildhall yn Llundain; a Helen Davies-Mikkelborg, y delynores fyd-enwog sydd bellach yn byw yn Denmark, ond sydd â'i gwreiddiau yn Aberystwyth.

Dewisodd y panel beirniaid chwe telynores i symud ymlaen i'r ail rownd ble y byddai rhaid iddynt gyflwyno rhaglen newydd o 20 munud, i gynnwys darn gosod o waith William Mathias, fyddai wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed eleni. Rhoddwyd cyfle i'r cystadleuwyr gyflwyno unai y 3 *Improvisations* adnabyddus iawn neu un symudiad o'i *Sonata i'r Delyn* sydd yn llawer llai adnabyddus.

Yn dilyn y rownd derfynol yma, barnwyd mai Mared oedd enillydd yr ysgoloriaeth o £1,500 a gyflwynwyd i'r ŵyl gan Gyfeillion Canolfan Gerdd William Mathias, ac mai Linda Simanauskite, Lithwania a Cassandra Tomella, Yr Eidal oedd enillwyr y ddwy ysgoloriaeth £1,500 a gyflwynwyd gan The Sickle Foundation.



Mared gyda Dr Rhiannon Mathias – merch William Mathias

Ar y dydd Iau bu'r enillwyr yn diddanu ymwelwyr i'r ŵyl mewn cyngerdd byr amser cinio, ac yn hwyrach derbyniodd Mared wahoddiad gan y Dr Rhiannon Mathias i ymuno â hi mewn cyflwyniad am ei thad a'r cyfansoddwr enwog, a drefnwyd yn arbennig ar gyfer disgyblion y Pagoda Arts Centre o Lerpwl.

Roedd y plant o'r ganolfan ddiwylliannol Tsieineaidd wedi ymweld â Chaernarfon i chwarae mewn cyngerdd gyda'u hathrawes, a gan iddynt astudio Mathias dros y misoedd blaenorol roedd hwn yn gyfle iddynt glywed am y dyn, y tad a'r cyfansoddwr gan ei ferch, ac i fwynhau perfformiad o'i waith gan Mared.

Dyma benllanw blwyddyn lwyddiannus arall i Mared gan iddi ennill y Rhuban Glas dan 16 yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013 a Gwobr Iau Gŵyl Pencerdd Gwalia ym Mhen-y-bont ar Ogwr flwyddyn yn ôl.

Caiff Mared ei hyfforddi gan Caryl Thomas, Pennaeth y Delyn, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru.

### Brysia wella

Brysia wella Elin Hefin - ein Cadeirydd - wrth droi'n lletchwith ar balmant llwyddodd i dorri un pigwrn - a gorfod canslo ei gwyliau.

### Biosffer Dyfri

Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Biosffer Dyfi i'w weld ar y we yn http://www.biosfferdyfi.org.uk/

# CLARACH


### Pont ar gau

Yn dilyn digwyddiad ar ddydd Sadwrn Ebrill 5 bu pont Llangorwen ar gau hyd ganol Mai tra bu gwaith atgyweirio yn digwydd.


**Llefydd Llonydd** Crwydro Tiroedd Sanctaidd Gogledd Ceredigion
**Peaceful Places** Exploring the Sacred Landscapes of North Ceredigion

## Lansiad y Llwybr Treftadaeth

Ddydd Sadwrn 7 Mehefin 2014, Eglwys Sant Mihangel, Llandre
2 – 4pm, mynediad **AM DDIM**



Dewch i'n helpu i ddathlu lansiad Llefydd Llonydd: llwybr treftadaeth newydd o gwmpas eglwysi a chapeli ar draws Gogledd Ceredigion.

Dewch â'ch ffrindiau a'ch teulu am brynhawn llawn hwyl a gweithgareddau ysbrydoledig, gan gynnwys teithiau cerdded tywysedig, stondinau, adrodd straeon a mwy.

Dewch i edrych ar fywyd gwyllt lleol. Gwrandewch ar straeon am hanes teuluol a gorchestion dynol. Dysgwch am bensaernïaeth, celf a chrefftwaith cain.

Darganfyddwch rywbeth newydd am y dirwedd ar garreg eich drws *chi.*

**Fe edrychwn ymlaen at eich gweld yno!**

Cadw
www.peaceful-places.com



**EGLWYS ST. PEDR, ELERCH**
**BONT-GOCH**
**CAWS, GWIN & CHÂN**

**NOS WENER, 27 MEHEFIN**
**AM 7.00**

**MYNEDIAD: £7-00**

**CÔR MEIBION Y MYNYDD**
**ENSEMBLE CERDDOROL**
**ARTISTIAID LLEOL**
**LLYWYDD: MRS GWENDA DAVIES, PENCADER (CWM-Y-GLO GYNT)**



Siop
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**





Gwasanaeth
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds,
Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

# Colofn Mrs Jones

Y mae gennyf gi bach o'r diwedd. Roeddwn wedi penderfynu ers tro nad oedd Hector, er ei anwyled, yn ddigon, fel pob cath, y mae'n greadur annibynnol iawn a golygai hyn na welwn rhyw lawer arno. Fe dreuliai rhyw awr neu ddwy gyda mi ar y soffa yn ei dro ac fe sleifiai i'r llofft ataf pan fyddwn wedi diffodd y golau a pharatoi i gysgu. Ond munud y gwawriai hi, fe godai a mynd. A minnau yn meddwl fel hyn, gwelais gŵn defaid bach oedd gan gyfaill i mi ar werth a digwyddais ddweud wrthi y buaswn wrth fy modd yn cymryd ci bach ond byddai yn well i mi gael ci hŷn oedd wedi dysgu ei fanars.Yr oedd hithau yn adnabod gwraig oedd â chi o'r fath nad oedd ei eisiau arni ac,ar ôl iddi wneud yn siwr mod i yn berson addas, fe ddaeth Cai - Skye yn ei hen fywyd - i'r tŷ. Spaniel o Tibet yw Cai - ond mai yn Llandysul y maged ef! - ci o frid a chi bach nodedig o ddel a barnu ar y nifer o bobl sydd yn dotio arno o'i weld. Ofnaf, fodd bynnag, mai 'bimbo' a 'dumb blonde' yw. Rwan, prysuraf i ychwanegu fod iddo fanteision hyd yn oed ar Buster. Y mae yn ddigon bach i'w gario; nid yw yn cyfarth fel gwaedgi newynog, y mae'n bodloni ar rhyw ddau neu dri chyfarthiad rhybuddiol yn unig a hynny mewn llais bas trwm, ac nid oes ganddo angen hanner yr ymarfer yr oedd Buster yn ei ddisgwyl. Ond ei anfantais pennaf yw na ellid, hyd y gwelaf, ddysgu dim iddo.Y mae yn anifail bach twp iawn,y mae gennyf ofn. Fe dreuliais brynhawn yn ei ddysgu i ddod ataf ac i eistedd a bu llwyddiant ar y wers a dechreuais innau feddwl y deuai dydd pan allwn ei gerdded heb gynllyfan. Aeth y ddau ohonom i'n gwelyau ac, erbyn y bore, yr oedd sgiliau newydd Cai yn anghofiedig. Fe'i dysgais iddo eto gyda yn union yr un canlyniad sydd yn golygu,wrth gwrs, na fedraf ei gerdded heb iddo fod ar y lead.Yn ei farn ef, geiriau cwbl ddiystyr y gellir eu hanwybyddu hyd nes y mae ef ei hun yn barod i'w harddel yw 'Cai,tyrd yma!'. Ond y mae yn gi bach glân iawn ac yn gi annwyl iawn ac yn gi bach naturiol dda ac felly yn cael pardwn ffŵl.



Fe welwch y brid yn nhemlau Tibet ac y mae ganddynt waith, credwch neu beidio. Yn y fynachlog fe ddisgwylir iddynt droi'r olwynion gweddi, rhybuddio'r mynachod o ymwelwyr a chadw cwmni i'r mynachod yn eu myfyrdodau. Wn i ddim faint o droi olwyn a wnâi Cai achos y mae o yn gi diog iawn wrth natur ond y mae'n dda iawn ar weddill ei ddyletswyddau ac yn llawer gwell cwmni na Hector.

Y mae hwnnw, bellach, yn byw yn y conservatory.Y mae ganddo hen fasged londri a gall orwedd ynddi yn edrych i lawr ar Cai fel yr edrychai yr hen Geltiaid gynt ar bobl yr ystyrient hwy yn ryfelwyr eilradd, ceidw Cai lygad barcud arno yntau a cheir ambell ras rhyngddynt. Hector yn gwasgu pob milltir fedr ohono ei hun a chlustiau a chynffon Cai yn fyw a difyrrwch wrth weld y cringoch yn ei sgathru hi dros y rhiniog. Nid oes perygl i Cai ei ddal, fodd bynnag, oherwydd ei siap, diwedd naturiol unrhyw orhoffedd gan Cai yw iddo ddechrau bwrw ei dîn dros ei ben ac erbyn iddo orffen hynny, mae Hector yn ddiogel ar y bwrdd adar. Dro arall, Hector sydd yn bwlio Cai. Mae Cai yn cysgu mewn caets go fawr ac i mewn iddo ohono ei hun am hanner awr wedi deg bob nos gan roi un cyfarthiad i mi gau'r drws. Byddaf finnau yn gwneud ac fe ddaw Hector i mewn bron ar ei union a rhoi clustan ffyrnig i'r caets wrth ei basio.Yn wir, yr wyf wedi gweld Hector yn cysgu ar dop y caets ambell i fore.

Wn i ddim a ddaw y ddau yn gyfeillion ond y maent yn mwy na goddef ei gilydd felly yr wyf yn gobeithio'r gorau. A pheidiwch a phoeni ychwaith mai mewn basged londri y mae Hector yn cysgu, y mae'n dewis gwneud hynny ac anwybyddu'r fasged bwrpasol a brynwyd iddo!

Croeso cynnes i'r Parchedig Andrew Loat, ficer newydd Penrhyn-coch, a gymerodd ei wasanaeth cyntaf yn eglwys Sant Ioan ar 18 Mai.

Gwersi Gitâr
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Capel Pen-llwyn**
**Gwasanaethau y Sul**
**Mai**

26 Parch Eifion Roberts 5 o'r gloch (Unedig yn y Dyffryn)

**Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Bugail | 5 o'r gloch |
| 8 | Bugail | 5 o'r gloch |
| 15 | Mr Lyndon Lloyd | 10 o'r gloch |
| 22 | Dr Rhidian Griffiths | 10 o'r gloch |
| 29 | Gŵyl yr Ysgol Sul yn y Morlan | 11.15 o'r gloch |
| 29 | Cymanfa Dydd yr Arglwydd 2 o'r gloch yn y Garn. (Dr D Ben Rees yn pregethu) | |



Rhai o frodorion yr ardal yn mynychu sêl bwrdd a gynhaliwyd i godi pres i Sioe Capel Bangor a'r cylch ar ddydd Llun y Pasg.

## Pêl-droed

Mae Rhydian Davies, Ceunant, yn dal yn beldroediwr dawnus, yn chwarae safle Canolwr i dîm Aberystwyth, yn ffrwyth Academi Ieuenctid y dref.Mae wedi treulio peth amser gyda Academi Dinas Birmingham a chafodd dreial gyda thîm Castellnewydd Unedig Lloegr.
Enillodd Rhydian hefyd yn y gorffennol, gap i Gymru o dan 16, ac hefyd i sgwod Ysgolion Cymru o dan 18. Mae ar ei drydedd tymor gyda thîm Aberystwyth, er ei fod eto ond 18 oed. Fe oedd y chwaraewr ieuangaf i sgorio gôl i brif Gyngrair Cymru y mis diwethaf. Dal ati Rhydian, bydd y Tincer yn dilyn dy lwyddiant yn y dyfodol.

## Llongyfarchiadau

Ganwyd baban bach yn ddiweddar, mab i Joanna, ( merch Mrs Janet Heather James, Llanbadarn) Fel mae rhai ohonoch yn gwybod mae Heather yn ferch i Mrs Maggie Jones, Haulfryn.Os yw hyn yn eich cymlhethu, Robin Glyn bach yw y pedwerydd cenhedlaeth.Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i chi gyd. Efallai y cawn lun, erbyn y mis nesaf.

## Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Te Pasg yr Eglwys ar brynhawn braf dydd Sadwrn, 19 Ebrill. Un o'r gweithgareddau a drefnwyd oedd yr Helfa Wyau Pasg. Braf iawn oedd gweld cynifer dda o blant ac oedolion yn bresennol. Cychwynwyd yr helfa o Neuadd yr Eglwys gan fynd ar ein taith i gyfeiriad Pentrerhibyn. Cafwyd tipyn o hwyl wrth chwilota am y wyau. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithareddau eraill yn ystod y prynhawn. Addurno Croes Pasg gyda blodau, raffl, dyfalu faint o wyau pasg oedd mewn jar a lliwio. Ar ddiwedd yr helfa, cafwyd te hyfryd a blasus yn y neuadd. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo, gan wneud y prynhawn yn llwyddiannus, a hynny mewn gwahanol ffyrdd. Diolch am eich cefnogaeth.

## Y diweddar Reg Salmon (1930-2014)

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Reg Salmon, Maes Afon, Capel Bangor, ar 3 Ebrill 2014 yn 84 oed. Yn enedigol o Aberystwyth, roedd Reg yn aelod poblogaidd ac yn gwmni difyr iawn ar lawnt fowlio Morfa Mawr (Queen's Road) lle bu'n aelod am nifer o flynyddoedd. Yn ogystal, roedd yn chwaraewr golff hynod o fedrus a bu'n gapten ar Glwb Golff Aberystwyth -lle bu'n aelod am hanner can mlynedd – ym 1981.Yn ei ieuenctid roedd hefyd yn bêl-droediwr dawnus iawn gan gynrychioli nifer o dimau lleol yn cynnwys tîm tref Aberystwyth. Roedd yn aelod o dîm yr YMCA a enillodd Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch ddwy flynedd yn olynol ym 1958 a 1959. Arferai weithio fel cynrychiolydd i fragdy *Welsh Brewers* hyd at ei ymddeoliad ym 1988. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i briod Pat, ei efeilliaid Mark a Paul (Bury St. Edmunds a'r Amwythig), a'r teulu cyfan yn eu colled. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu ei fywyd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 15 Ebrill. Coffa annwyl iawn amdano.



## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Mai gan Beti Daniel ein llywydd. Wedi trafod rhai materion aed ymlaen i ethol swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Etholwyd y canlynol:
Llywydd: Eirwen McAnulty
Is-lywydd: Delyth Davies
Ysgrifenyddes: Llinos Jones
Is-ysgrifenyddes: Heulwen Lewis
Trysoryddes: Mrs Aerona Armitage
Cytunodd Ann James i barhau i ddosbarthu copïau o'r *Wawr* i'r aelodau a Delyth Davies i ysgrifennu adroddiadau i'r *Tincer*.
Diolchodd Beti Daniel i'r aelodau am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn, gan ddiolch yn arbennig i'r swyddogion, sef Lis Collison, yr ysgrifennydd ac Eirwen McAnulty, y drysoryddes.
Yna, cyflwynwyd gwraig wadd y noson, sef

Mrs Shân Jones sy'n bediatrydd ac a fu'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd am dros 24 mlynedd. Bellach mae ganddi ei chwmni ei hun yn Aberystwyth. Clywsom ganddi beth yw'r gwahaniaeth rhwng pediatrydd a chiropodydd ac yna aeth ymlaen i sôn am yr hyn a wna yn ei gwaith pob dydd. Soniodd am rai o gyflyrau'r traed a sut y bydd yn eu trin a dangosodd luniau perthnasol i ni. Cawsom gyngor hefyd ar sut i ofalu am y traed. Ond nid pediatrydd yn unig yw Shân Jones gan ei bod hefyd yn berchen siop esgidiau yn Aberystwyth, sef siop 'Sgidiau Gwdihw yn Ffordd Portland. Diolchodd Beti Daniel i Shân Jones am ei sgwrs ddiddorol a hefyd am rannu anrhegion i'r aelodau. Margaret Dryburgh a Heulwen Lewis oedd yn gyfrifol am baratoi te ac am ddarparu'r wobr raffl. Enillwyd y wobr raffl gan Beti Daniel.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Benjamin a Rachael Williams, Penlan Oleu, ar enedigaeth eu mab bach, ar Ebrill14eg – Steffan Benjamin, brawd i Rebecca, Laura ac Evan. Dymunwn i chi i gyd ein cofion gorau.



**Ar Ŵyl y Banc cyntaf mis Mai cynhaliwyd Trec Rheidol lle y daeth bron i hanner cant o farchogion i fwynhau trec yn ardal Cwmrheidol. Diolch o galon i bawb wnaeth gefnogi y digwyddiadau yma ac enwedig i bawb fu yn gweithio i greu y digwyddiadau yma.**




## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00

**Mai**
25 Goronwy Prys Owen

**Mehefin**
1 Bugail
8 Richard Llwyd Jones
15 Bugail
22 Edwyn Hughes
29 Cymanfa Dydd yr Arglwydd (Ysgolion Sul Morlan 10.00; Garn 2.00)

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Eirian Hughes, Lluest Fach, ar ôl iddi syrthio yn y cartref.

Da deall fod Gwilym Simms Williams, Gwarcwm, yn gwella ar ôl cyfnod o anhwylder ac wedi dychwelyd i'r brifysgol yng Nghaeredin.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â David a Cynthia Binks, Trysor, ar golli modryb – Mrs Eluned Morgan o Benrhyn-coch.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- Cinio Cawl (11.30-1.30, 17 Mai). Er budd Cymorth Cristnogol. Cyfle i gymdeithasu a mwynhau a chefnogi'r mudiad hwn sy'n ceisio rhoi dyfodol heb ofn i bobl. Mynediad: £3 (yn cynnwys cawl a rôl).
- Y Môr (16 Mehefin-1 Awst). Arddangosfa o gelf a barddoniaeth ar thema Y Môr.
- Taith o amgylch yr Hen Goleg (6.00, 25 Mehefin) gydag Elgan Philip Davies.

**Manylion llawn ar wefan Morlan:**
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU FFAIR GWIRFODDOLWYR**

**Dydd Iau, Mehefin 5ed**
**10:00 – 16:00**
Diwrnod agored i fwynhau, dathlu a hyrwyddo gwirfoddoli
*Mynediad am ddim!*
gwd@llgc.org.uk / 01970 632991

LLGC NLW
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
CAVO

## llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**




**Sadwrn Barlys yn Aberteifi.**

# Ysgol Penrhyn-coch

### Trawsgwlad yr Urdd

Bu pedwar o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn rasys trawsgwlad Sir yr Urdd ar gae rygbi Aberaeron. Gwnaeth y pedwar redeg yn arbennig a llwyddodd pob un ohonynt i orffen yn yr 20 uchaf. Dyma'r canlyniadau:-

Blwyddyn 3 – 8fed - Luke Bowen
Blwyddyn 4 – 5ed – Clay Nash
Blwyddyn 5 – 10fed – Llion Edwards
Blwyddyn 6 – 18fed – Rhys James.

Llongyfarchiadau iddynt ar eu gorchestion a diolch i'r rhai a fu'n barod i'w cludo i lawr i Aberaeron.

### Ocsiwn

Ar y 9fed o Fai cynhaliwyd Ocsiwn arbennig yng Nglwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Cafwyd dros 40 o eitemau i'w gwerthu ynghyd â raffl arbennig o dda. Ein arwerthwr ar y noson oedd y Cyng Dai Mason. Diolch iddo am ddod atom ac am wneud y noson yn un hwyliog iawn. Ar ddiwedd y noson llwyddwyd i godi £2260 tuag at goffrau y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Mae ein diolch fel ysgol yn fawr i bawb a gyfrannodd eitemau neu gefnogodd y noson mewn unrhyw ffordd. Diolch i Dai am ei waith arbennig ynghyd â'r Clwb Pêl-droed am eu parodrwydd i'n cefnogi.

### Eisteddfod Celf a Chrefft

Yn Eisteddfod Celf a Chrefft Genedlaethol yr Urdd, llwyddwyd i ennill nifer o wobrau eleni. Llwyddwyd i ennill tair gwobr yn y cystadlaethau unigol. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant. Dyma restr o'r enillwyr:-
108: Gwehyddu Bl. 5 a 6
1af Charlotte Ralphs
125: Cyfres o Brintiau Monocrom Bl. 2 ac iau
2il Gwenan Hedd Jenkins
140: Dylunio a Thechnoleg Bl. 2 ac iau
1af Gwenan Hedd Jenkins
142: Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6
3ydd Sian Fflur Jenkins

### Gardd yr Ysgol

Mae gardd yr ysgol wrthi yn cael ei hadnewyddu. Mae Dale a Naomi wrthi yn clirio ac yn paratoi'r ardal ar gyfer y gwaith o 'i datblygu. Gobeithiwn fynd ati rhwng nawr a'r Haf i weithio ar blannu hadau newydd ynghyd â chreu ardaloedd pwrpasol ar gyfer meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o natur. Bydd yr ardd yn cael ei datblygu fel adnodd allanol i'r disgyblion. Os ydych am gynorthwyo gyda'r gwaith, cysylltwch â'r ysgol.

### Banc Dillad

Mae'n siŵr eich bod wedi gweld erbyn hyn ein banc dillad o fewn tir yr ysgol. Rydym yn casglu hen ddillad amrywiol. Mae'r dillad yna'n cael eu casglu ar gyfer eu hailgylchu. Bydd yr ysgol yn derbyn swm o arian am y dillad. Mae rhwydd hynt i chi ollwng unrhyw ddillad yn y banc ar unrhyw adeg.

### Dringo Kilimanjaro er cof am Mark Horwood

Ar yr 21ain o Fehefin, bydd Emyr Pugh-Evans a Matthew Martin yn rhedeg Hanner Marathon (13 milltir / 21km) Trail Marathon Wales a gynhelir ar hyd llwybrau Coedwig Coed y Brenin. Byddant yn codi arian tuag at yr uchod. Os hoffech eu noddi cysylltwch â'r ysgol.

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226



Rhedwyr Trawsgwlad yr ysgol fu'n rhedeg yn Aberaeron



Enillwyr Eisteddfod Celf a Chrefft Cenedlaethol yr Urdd



Dangoswch Gerdyn Coch i Hiliaeth.

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Trip i goedwig Gogerddan

Ddoe aeth y dosbarth i goedwig Gogerddan ar y bws. Roedd dyn o'r enw Leigh yna. Roedd Leigh yn dysgu y dosbarth am goed. Ar ôl hwnna aeth y dosbarth gyda Leigh i adnabod coed. Gwelon ni sycamorwydden. Roedd dail y sycamorwydden yn edrych fel llaw. Roedd Leigh wedi mesur y goeden. Ar ôl hwnna gwelais i ffawydden. Roedd y ffawydden yn edrych fel coes eleffant. Ar ôl hwnna gwelais i bod un goeden wedi torri achos roedd ffwng wedi bwyta fe. Nesaf roeddwn i wedi chwarae yn y coed. Ges i llawer o hwyl! Yn olaf roedd y dosbarth wedi coginio marshmallows ar y tân ac roeddwn i wedi adeiladu cuddfan. (Gan Glyn Clift – Blwyddyn 2)

### 'Bags to school'

Diolch i bawb am gefnogi yr Ysgol unwaith eto gan gasglu hen dillad, esgidiau, tegannau meddal ayyb ar gyfer 'bag2school'. Rydym yn edrych ymlaen i glywed faint o arian rydyn ni wedi codi.






Cantref

**Llefydd gwag am Aelodau Bwrdd**

***Eich cyfle i wneud gwahaniaeth***

Mae Aelodau'r Bwrdd yn goruchwylio gwaith y gymdeithas, pennu strategaeth a chyferiad ein busnes, ac yn sicrhau darpariaeth barhaus gwasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy ac o ansawdd da ar draws ardal weithredol y pedwar awdurdod lleol.

A oes gennych unrhyw un o'r sgiliau sy'n dilyn:

**Busnes**
**Masnachol**
**Cyfreithiol**
**Archwilio**

Os oes, cysylltwch â Amanda ar **01239 712 034** neu ewch i'n gwefan **www.cantref.co.uk** am fwy o wybodaeth.

Dyddiad Cau: 6ed o Fehefin, 2014.


**ytincer@googlemail.com**



# Ysgol Pen-llwyn

### Staff Newydd / Plant Newydd

Dechreuodd un aelod newydd o staff yn ddiweddar. Dechreuodd Miss Rhian Jones fel cynorthwywraig yn y Cyfnod Sylfaen. Fe wnaethon ni hefyd groesawu pedwar disgybl newydd hefyd sef Sara Mair Lewis, Jayden Hughes, Erin Williams a Rhydian Skipp. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

### Dydd Mawrth Gwyrdd

Bu holl ddisgyblion yr Ysgol yn brysur un prynhawn dydd Mawrth yn ddiweddar yn garddio. Penderfynodd Cyngor yr Ysgol a'r Cyngor Eco bod angen twtio ychydig ar ein gwelyau a photiau. Buodd pawb yn brysur yn chwynnu, plannu a dyfrio. Mae'r ardd yn edrych tipyn yn daclusach, ac edrychwn ymlaen i'r haf i weld yr holl blanhigion wedi tyfu. Diolch i'r rhieni am eu cymorth. Diolch yn fawr hefyd i Gymdeithas Rhieni yr Ysgol a phawb sy'n cefnogi ein hysgol am brynu meinciau a byrddau newydd tu allan i'r Ysgol. Maent yn edrych yn hyfryd ac edrychwn ymlaen am haf braf i gael cyfle i eistedd tu allan arnynt.


**MYNACH HANDYMAN**

**Cynnal a Chadw Tŷ, Gardd, Siediau a Tŷ Gwydr, Golchi Patio**

Rhoddir sylw i'r gwaith bach yna does byth amser gennych i orffen. Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**
**01974 261758**
**07792457816**

mynachhandyman@yahoo.com


### Plannu Coed

Gwnaeth Mrs Davies a'r Cyngor Eco gais yn ddiweddar i Gyngor Ceredigion am goed i blannu ar safle'r ysgol. Fel ysgol caswom rhyw ugain o goed amrywiol i blannu yn yr ysgol a oedd yn amrywio o helyg, ffawydd ac onnen. Rydym wedi plannu'r mwyafrif o'r coed ar safle'r ysgol ac rydym yn edrych ymlaen i weld y coed yma yn datblygu yn flynyddol.

### Show Racism the Red Card

Yn ddiweddar cafodd blwyddyn 5 a 6 weithdy arbennig er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd peidio bod yn hiliol. Gwnaethpwyd hyn mewn modd cyfoes wrth sôn am beldroedwyr croen tywyll a'r pwysigrwydd i'w parchu nhw fel pawb arall. Cafwyd bore buddiol a diddorol. Diolch i Amy am gynnal y gweithdy.

### Gŵyl Gwyddoniaeth

Yn ddiweddar buodd blwyddyn 4,5 a 6 i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer Gweithdy Gwyddoniaeth. Tra yna, cymerodd y plant ran mewn cwis, ac felly llongyfarchiadau i Laura Jones-Williams a Huw Griffiths am ennill y cwis o ran Ysgol Pen-llwyn. Derbynion nhw wobrau arbennig trwy'r post. Da iawn chi.

### Ffarwelio

Daeth diwrnod trist yn ddiweddar i'r ysgol wrth i ni ffarwelio gyda dwy ddisgybl poblogaidd. Mae Amy a Francesca York a'u rhieni Margi a Chris wedi penderfynu symud i Seland Newydd. Dymunwn pob lwc iddyn nhw fel teulu a diolch iddyn nhw am eu cyfraniad i fywyd ym Mhen-llwyn dros y blynyddoedd.





Garddio a phlannu coed



Ffarwelio Amy a Francesca York



Dosbarth 2 yn cael gweithdy Celf gyda Leah o Arad Goch.

# Ysgol Rhydypennau

### Llyfrgell Genedlaethol

Yn ystod ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 5 a 6 y fraint o weld Llyfr Du Caerfyrddin. Dyma'r llyfr hynaf yn hanes Cymru sy'n uniaith Gymraeg ac y mae'n hanu o'r flwyddyn 1250. O dan ofal Rhodri Morgan, cafodd y plant eu tywys o gwmpas yr arddangosfa gan ddysgu am lawysgrifau hynafol Cymru gan gynnwys Llyfr Coch Hergest a Llyfr Aneurin. Yn ystod yr ymweliad cafwyd braint ychwanegol; sesiwn cyfansoddi cerddi gan ddau Brifardd; Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood.
Dyma'r gerdd a gyfansoddwyd ar y cyd:

### 'Y Storm'

Mae'r cesair yn cwyno ar ben y tŷ
a'r cwmwl yn chwerthin yn yr awyr ddu.
Mae'r dail yn chwyrlïo tua'r llawr
a'r gannwyll yn crïo'n ddistaw yn awr.

### Ymweliad

Daeth rhiant i'n plith yn ddiweddar er mwyn sôn am ei waith fel darlunydd. Symudodd Andy McPherson a'i deulu o Gernyw ac y maent bellach wedi ymgartrefu yn y gymuned ers rhai blynyddoedd bellach. Mae Andy yn gweithio o'i gartref ac yn darlunio ar gyfer llyfrau plant a ffilmiau Disney. Efallai i chi weld ei enw ar glawr llyfr neu hyd yn oed ar ddiwedd ffilm wedi ei animeiddio. Cafwyd sesiwn ddifyr iawn ganddo wrth iddo ddangos ei ddawn darlunio i'r plant.

### Casglu Dillad

Dros yr wythnosau diwethaf bu nifer o blant a rhieni yn clirio'u hystafelloedd gwely er mwyn casglu dillad, esgidiau a hen fagiau nad ydynt eu hangen bellach. Yna, penodwyd diwrnod arbennig er mwyn casglu'r holl fagiau yn ganolog at ei gilydd. Yna aethpwyd a'r llwyth i ffwrdd mewn fan fawr dan gynllun 'Bags 2 School'. Fel arfer mae hyn yn digwydd ddwywaith y flwyddyn ac y mae'n codi arian da i gronfa'r ysgol. Diolch i bawb a fu'n casglu.

### Trawsgwlad

Ar y 2il o Fai bu nifer o blant yr ysgol yn brwydro yn erbyn holl ysgolion Ceredigion yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am orffen yn y deg cyntaf; Elen Morgan bl 3-9ed; Lili Lyons bl 4-2il; Megan Glover bl 4-7ed; Lydia Powell bl 5-2il; Griff Lewis bl 5-5ed, Siân Duckett bl 6-3ydd. Cerys Scott bl 6-4ydd. Ardderchog.



Sesiwn 'Dangoswch gerdyn coch i hiliaeth'.



Casglu dillad

### Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Yn unol â chynllun Loteri Cenedlaethol 'Show Racism the Red Card' cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle i fwynhau cyflwyniadau a gweithgareddau amrywiol ar hiliaeth yn y gymdeithas. Yn ystod y cyflwyniad a'r tasgau amrywiol a ddilynodd, fe ddysgodd y plant beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol yn ein cymunedau o safbwynt tras, diwylliant a chrefydd unigolion.

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Mai:-

1) Gruffydd Siôn, Tyddyn Llwyd, Llandre - £25
2) Ann Dallas 85, Bryncastell - £15
3) Meuriel Evans, d/o Talerddig, Bow Street - £10

### Gwefan yr Ysgol

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar *www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*



Tali a Melchi McPherson gyda llyfr yn cynnwys darluniau eu Tad.



Ymweliad Andy McPherson.

# Tasg y Tincer



Sian Evans


Gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau Pasg. Diolch i bawb liwiodd llun yr het Basg y mis diwethaf. Roedd eich lluniau'n ddigon o ryfeddod, a daeth rhai o bob cwr o Gymru ! Dyma'r enwau: Alaw Fflur Lewis, Clarach; Nel Davies, Caernarfon; Harri Evans, Caerdydd; Harri van de Vyver, Y Fenni; Sali Jenkins, Clydach; Gwawr Morgan, Llandre; Glain Erin Jones, Tal-y-bont; Siân Evans, Capel Dewi; Elen Mary Morgan, Bow Street; Ffion o Ddolgellau; Lois Elfyn Jones, Dolau.

Da iawn, bawb. Dy enw di, Siân, ddaeth o'r het y tro hwn – llongyfarchiadau!

Y mis hwn, beth am liwio dau lun? Ddiwedd y mis, bydd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal yn y Bala. Beth am liwio llun y pafiliwn yn goch, gwyn a gwyrdd, sef lliwiau'r Urdd? Pob lwc i bawb o ardal *Y Tincer* fydd yn cystadlu! Yn fuan wedyn bydd gêmau Cwpan y Byd yn cael eu cynnal ym Mrasil, a dyma Fuleco yr armadilo, sef masgot y gêmau.

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Mehefin 1af. Mwynhewch eich gwyliau hanner tymor, a ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
JEAN JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 369 | MAI 2014